Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol

**Mehefin 2008**

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y ddogfen benodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?** **1**

**Beth yw addoli ar y cyd?** **3**

**Sut rydym yn arolygu ac yn adrodd ar addoli ar y cyd?** **4**

**Cwestiynau cyffredin** **5**

**Beth yw diben yr arweiniad atodol hwn?**

Rhoi arweiniad wedi'i ddiweddaru i arolygwyr ar sut i arolygu addoli ar y cyd.  Mae'r arweiniad hwn yn disodli Newyddlen Estyn Rhif 1/98 'Arolygu Addoli ar y Cyd' (4 Awst 1998).  Dylai'r arweiniad hwn wedi'i ddiweddaru gael ei ddefnyddio ar y cyd â Fframwaith Arolygu Cyffredin ac Arweiniad Estyn ar Arolygu Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

**Ar gyfer pwy y mae?**

Pob aelod o dimau arolygu ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig anenwadol ac unedau cyfeirio disgyblion.

**O ba ddyddiad y dylid ei ddefnyddio?**

Ar unwaith.

## Beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd?

1 Gosododd Deddf Diwygio Addysg 1988, Cylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y gofynion cyfreithiol am addoli ar y cyd mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir heblaw am ysgolion arbennig. Nid yw'r gofynion yn berthnasol i golegau addysg bellach, gan gynnwys colegau trydyddol, nac i ysgolion meithrin na dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion babanod neu gynradd.

2 Gosododd Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig) 1994 y gofynion ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion arbennig.

3 Gosododd Roedd Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 y gofynion am addoli ar y cyd mewn ysgolion annibynnol (arbennig, fel arfer) ar gyfer disgyblion a roddwyd ynddynt gan awdurdod addysg lleol.

4 Rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bob dydd ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig.

5 Dylai'r rhan fwyaf o weithgareddau addoli ar y cyd bob tymor fod yn bennaf Gristnogol neu'n gyffredinol Gristnogol o ran eu cymeriad. Ystyr hyn yw y dylent adlewyrchu traddodiadau cyffredinol cred Gristnogol heb fod yn nodweddiadol o unrhyw enwad Cristnogol penodol.

6 Gall addoli ar y cyd ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.

7 Gellir darparu addoli ar y cyd i ddisgyblion mewn grŵp o unrhyw faint – er enghraifft, fel dosbarth, grŵp blwyddyn, grŵp cyfnod neu i gymuned gyfan yr ysgol.

8 Dylai addoli ar y cyd ystyried cefndiroedd teuluol, oedrannau a thueddfryd y disgyblion dan sylw.

9 Nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol i ddarparu addoli ar y cyd i ddisgyblion o dan bump oed.

10 Gall rhiant ofyn bod eu plentyn yn cael ei eithrio rhag addoli ar y cyd a rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath. Nid oes rhaid i rieni roi rhesymau. Mae'n rhaid i'r ysgol oruchwylio'r disgyblion sy'n cael eu hesgusodi. Gall yr ysgol, gyda chytundeb rhieni, ddarparu trefniadau eraill ar gyfer addoli i un neu fwy o ddisgyblion sy'n cael eu hesgusodi, ond nid oes rheidrwydd i wneud hynny. Dylai prosbectws yr ysgol gyfeirio at hawl rhieni i ofyn bod eu plentyn yn cael ei esgusodi o addoli ar y cyd ac amlinellu'r trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n cael eu hesgusodi.

11 Mae Mesur Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi hawl i ddisgyblion yn y chweched dosbarth esgusodi eu hunain rhag addoli ar y cyd. Fodd bynnag, er bod y ddeddfwriaeth hon wedi dod i rym ym mis Medi 2007 yn Lloegr, nid yw wedi dod i rym eto yng Nghymru. Felly, nes bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dod â'r ddeddfwriaeth hon i rym, dylai pob disgybl chweched dosbarth yng Nghymru gymryd rhan mewn addoli ar y cyd oni bai bod eu rhieni yn eu tynnu allan ohono.

12 Mae gan athrawon yr hawl i dynnu'n ôl o addoli ar y cyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ysgol sicrhau bod addoli ar y cyd yn parhau i gael ei ddarparu'n ddyddiol i'r holl ddisgyblion.

## Beth yw addoli ar y cyd?

13 Nid yw addoli'n cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth. Mae'r arweiniad i ysgolion yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig yn cynnwys y diffiniad canlynol:

> Rhaid iddo mewn rhyw ffordd adlewyrchu rhywbeth sy'n arbennig neu'n wahanol i weithgareddau arferol yr ysgol a dylai ymwneud â'r parch neu'r addoliad a gynigir i fod neu bŵer duwiol.

14 Bydd addoli mewn ysgolion yn wahanol i addoli ymysg grŵp o bobl sydd â chredoau cyffredin. Caiff hyn ei gydnabod mewn deddfwriaeth drwy'r cyfeiriad at addoli 'ar y cyd' yn hytrach nag addoli 'corfforaethol'.

15 Caiff nod addoli ar y cyd mewn ysgolion ei ddisgrifio yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig:

> Dylai addoli ar y cyd mewn ysgolion anelu at gynnig cyfle i ddisgyblion addoli Duw; ystyried materion ysbrydol a moesol ac archwilio eu credoau eu hunain; annog disgyblion i gymryd rhan ac i ymateb, p'un ai drwy ymwneud â chyflwyno'r addoliad neu drwy wrando, gwylio ac ymuno yn yr addoliad a gynigir; a datblygu ysbryd cymunedol, hyrwyddo ethos cyffredin a gwerthoedd cyffredin, ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.

16 Mae addoli ar y cyd yn wahanol i wasanaeth. Er y cânt eu cynnal yn aml yn yr un cynulliad, dylai'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn glir.

17 Gall addoli ar y cyd fod ar nifer o ffurfiau. Gall disgyblion gymryd rhywfaint o'r awenau neu'r cwbl ohono. Mae rhai o gydrannau priodol addoli ar y cyd yn cael eu hamlinellu yn y blwch isod, ond ni ddylid ystyried hwn yn rhestr gynhwysfawr. Gall gweithred addoli ar y cyd ymgorffori un neu fwy o'r cydrannau hyn.

> **Myfyrio** – gellir annog disgyblion i wrando ar ysgogiad priodol, fel darlleniad o'r Beibl neu ysgrif grefyddol arall, drama, dawns, fideo, cân, darn o gerddoriaeth, arteffact, cerdd, stori, erthygl newyddion, ffotograff, llun, gweddi, cwestiwn, defod neu gyflwyniad neu araith gan aelod o staff neu siaradwr gwadd, ei wylio neu fyfyrio arno.
>
> **Gweddïo** – gellir annog disgyblion i weddïo ynghyd yn uchel neu i weddïo'n unigol mewn tawelwch.
>
> **Canu** – gellir annog disgyblion i ganu emyn neu gân arall o foliant gyda'i gilydd.
>
> **Darllen** - gellir annog disgyblion i ddarllen detholiad o'r Beibl neu o ysgrif grefyddol arall, neu 'munud i feddwl'.

18 Gall disgyblion drafod ysgogiad yn ystod addoli ar y cyd, ond ni ddylid ystyried bod y trafod ar ei ben ei hun yn addoli. Yn yr un modd, nid oes rhaid i addoli ar y cyd gynnwys cyfle i drafod.

## Sut rydym yn arolygu ac yn adrodd ar addoli ar y cyd?

19 **Ym mhob arolygiad, mae'n rhaid i arolygwyr adrodd ynghylch a yw addoli ar y cyd yn bodloni gofynion statudol ai peidio.** Wrth roi gradd i gwestiwn 3.5 y Fframwaith Arolygu Cyffredin ('A yw profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol – gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?'), mae'n rhaid i arolygwyr ystyried ansawdd addoli ar y cyd ac a yw ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol. Dylai arolygwyr ystyried ysbryd y gyfraith wrth arolygu addoli ar y cyd ynghyd â llythyren y ddeddf. Ni ddylai toriadau mân neu achlysurol arwain at farn gyffredinol nad yw ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

20 Os yw ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol am addoli ar y cyd, yna mae'n rhaid ystyried hyn wrth roi gradd i gwestiwn 3.7 ('A yw'r profiadau dysgu yn bodloni gofynion y cwrs a gofynion cyfreithiol?'). **Os yw ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd yna ni all y radd gyffredinol ar gyfer cwestiwn allweddol 3 for yn uwch na gradd 3.**

21 **Os yw ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol, rhaid cofnodi'r rheswm neu'r rhesymau dros y methiant yn yr adroddiad. Rhaid i arolygwyr gyfeirio at fethiant yr ysgol i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol yn yr argymhellion ar gyfer gwella.**

22 Er nad yw addoli ar y cyd mewn ysgol efallai'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, mae'n bosibl ei fod yn cyfrannu'n sylweddol o hyd at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion a dylid cofnodi hyn yn yr adroddiad os yw'n berthnasol. I'r gwrthwyneb, gall addoli ar y cyd fodloni gofynion cyfreithiol eto dim ond cyfraniad prin y gwna at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

23 Nid yw'n ddigonol bod disgyblion yn bresennol yn ystod addoli ar y cyd yn unig. Rhaid i arolygwyr sicrhau bod y sawl sy'n arwain yr addoli o leiaf yn paratoi disgyblion yn briodol ac yn eu hannog i wrando ar yr addoli a gynigir, i'w wylio neu i fyfyrio arno. Gall fod yn anodd barnu a yw disgyblion yn gwrando ar yr addoli, yn ei wylio neu'n myfyrio arno, ai peidio, ac felly mae'n bosibl y bydd angen i arolygwyr fodloni eu hunain bod yr ysgol wedi gwneud ymdrech resymol i ddarparu'r cyfle i addoli ar y cyd.

24 Ni ddylai arolygwyr wneud cofnodion yn ystod addoli ar y cyd.

25 Ni ddylai arolygwyr amseru hyd yr addoli ar y cyd. Ni osodir hyd gofynnol mewn deddfwriaeth nac mewn arweiniad.

26 Ni ddylai arolygwyr ganiatáu i'w barn bersonol am addoli ar y cyd neu grefydd effeithio ar eu barnau.

27 Mae arolygwyr yn arsylwyr yn ystod yr addoli ar y cyd ac ni ddylent deimlo bod rhwymedigaeth arnynt gymryd rhan.

## Cwestiynau cyffredin

28 A ddylai disgyblion grymu pen a chau eu llygaid yn ystod gweddi?

Eu dewis personol yw crymu pen a chau llygaid, neu beidio, yn ystod gweddi. Os yw disgyblion yn dewis peidio â gwneud, ni ddylai arolygwyr gymryd yn ganiataol mai bod yn amharchus y maent ac ni ddylent ychwaith ddod i'r casgliad bod yr addoli ar y cyd yn methu â bodloni gofynion cyfreithiol oherwydd hyn.

29 A ddylai disgyblion ddweud 'amen' ar ddiwedd gweddi?

Eu dewis personol yw cytuno â'r weddi ai peidio a ph'un ai i ddweud 'amen' ai peidio. Os yw disgyblion yn dewis peidio â gwneud, ni ddylai arolygwyr gymryd yn ganiataol mai bod yn amharchus y maent ac ni ddylent ychwaith ddod i'r casgliad bod yr addoli ar y cyd yn methu â bodloni gofynion cyfreithiol oherwydd hyn.

30 A ddylid gwneud i ddisgyblion ganu emynau neu ganeuon addoli?

Eu dewis personol yw canu emynau neu ganeuon addoli, ai peidio. Mae'r gyfraith yn gofyn bod ysgolion yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion addoli. Nid yw'r gyfraith yn gofyn bod ysgolion yn gwneud i ddisgyblion addoli.

31 Nid oedd addoli ar y cyd gan yr ysgol gyfan, yr arsylwyd arno yn ystod arolygiad, wedi cyfeirio o gwbl at y ffydd Gristnogol – a yw hyn yn dderbyniol?

Mae'r gyfraith yn datgan y dylai'r rhan fwyaf o weithredoedd addoli ar y cyd ym mhob tymor fod 'o natur Gristnogol gyffredinol yn gyfan gwbl neu yn bennaf'. Felly, mae'n dderbyniol os nad yw addoli ar y cyd weithiau wedi'i gysylltu'n glir â'r ffydd Gristnogol. Dylai arolygwyr wirio cofnod yr ysgol o themâu diweddar ar gyfer addoli ar y cyd i ganfod a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gyfraith ai peidio.

32 Dywed ysgol gynradd na all ddarparu addoli ar y cyd ddeuddydd yr wythnos gan nad yw'r unig neuadd ar gael. A yw hyn yn dderbyniol?

Nac ydyw, nid yw hyn yn dderbyniol gan nad oes rhaid i ddisgyblion ymgynnull mewn neuadd ar gyfer addoli ar y cyd. Os nad yw'r neuadd ar gael ddeuddydd yr wythnos, yna dylai'r ysgol wneud trefniadau bod addoli ar y cyd yn cael ei ddarparu mewn grwpiau llai mewn ystafelloedd bychain.

33 Darllenodd athro 'funud i feddwl' i grŵp dosbarth ysgol uwchradd a gofynnodd i'r disgyblion fyfyrio'n dawel ar hwn am ennyd. Roedd ychydig o ddisgyblion yn chwarae cardiau tra bod hyn yn digwydd – a yw hyn yn dderbyniol?

Nac ydyw, nid yw hyn yn dderbyniol oherwydd dylai'r athro gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y disgyblion yn gwrando o ddifri ar y 'munud i feddwl' a'u bod yn dawel ac yn llonydd yn ystod yr amser i fyfyrio. Fodd bynnag, byddai angen i arolygwyr ystyried a yw hyn yn ddigwyddiad prin cyn pennu a yw'r ysgol, at ei gilydd, yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ai peidio.

34 Mae arolygydd yn ansicr ynghylch a yw'r addoli ar y cyd mewn grŵp dosbarth ysgol uwchradd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol – beth yw'r farn y dylid ei llunio?

Oni bai bod arolygydd yn hyderus nad yw ysgol yn darparu'r cyfle i ddisgyblion addoli, yna dylid llunio'r farn bod yr ysgol yn bodloni gofynion cyfreithiol.

35 Nid yw athro grŵp dosbarth mewn ysgol uwchradd yn cytuno ag addoli ar y cyd ac nid yw'n rhoi cyfle i ddisgyblion addoli pan nad ydynt mewn gwasanaeth blwyddyn neu wasanaeth ysgol-gyfan. A yw hyn yn golygu bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol?

Er bod gan athrawon yr hawl i dynnu'n ôl o addoli ar y cyd, mae'n rhaid i'r ysgol gynnig addoli ar y cyd i ddisgyblion yn y dosbarth hwn o hyd. Os nad yw'r ysgol fel arfer yn gwneud trefniadau eraill ar gyfer y dosbarth hwn yna byddai hyn yn arwain at farn bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol.

36 Yn ystod arolygiad o ysgol uwchradd, nid yw athro cyflenwi ar gyfer grŵp dosbarth yn darparu addoli ar y cyd i ddisgyblion. A yw hyn yn golygu bod yr ysgol yn methu â bodloni gofynion cyfreithiol?

Efallai nad yw bob amser yn bosibl i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd yn ddyddiol oherwydd cyfyngiadau ar staff neu am resymau eraill fel a oes ystafelloedd mawr ar gael. Dylai arolygwyr felly ystyried y ddarpariaeth dros y flwyddyn, nid yn unig ar ddiwrnod yr arsylwi. Ni ddylai diffyg darpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd ar un diwrnod ar ei ben ei hun arwain at farn bod yr ysgol yn methu â bodloni'r gofynion cyfreithiol.

37 A oes rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd i ddisgyblion chweched dosbarth?

Oes, yng Nghymru mae'n rhaid i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd i ddisgyblion chweched dosbarth o hyd. Mae'n bosibl nad oes rhaid i ysgolion yn Lloegr wneud hyn oherwydd bod Mesur Addysg ac Arolygiadau 2006 wedi ei gwneud yn bosibl i ddisgyblion chweched dosbarth esgusodi eu hunain rhag addoli ar y cyd. Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym yn Lloegr ym mis Medi 2007 ond nid yw wedi dod i rym yng Nghymru eto. Nid oes dyddiad wedi cael ei bennu iddi ddod i rym.

38 Sut gall addoli ar y cyd fod yn 'Gristnogol yn gyffredinol' mewn ysgol sydd â chyfran uchel o Fwslimiaid?

Dylai'r ysgol ystyried y ffaith bod ganddi gyfran uchel o Fwslimiaid. Dylai'r rheiny sy'n arwain yr addoli ar y cyd fod yn sensitif i'r ystod o gredoau sydd gan y disgyblion yn yr ysgol. Dylai addoli ar y cyd roi cyfleoedd i addoli heb eu hannog i wneud rhywbeth sydd yn groes i athrawiaeth eu crefydd eu hunain. Er enghraifft, gallai amserau gweddïo fod yn benagored er mwyn i ddisgyblion allu gweddïo ar eu pen eu hunain yn ddistaw.

39 Mae ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd. A oes angen cofnodi hyn yn yr adroddiad arolygu?

Oes, mae'n rhaid i arolygwyr adrodd ynghylch a yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ai peidio.